

**CARDIFF**  
UNIVERSITY

PRIFYSGOL  
**CAERDYDD**

Disability  
and Dyslexia

Anabledd  
a Dyslecsia

# Canllaw Cymorth i Bobl Anabl

Lluniwyd gan y Tîm Anabledd a Dyslecsia,  
Cymorth a Lles Myfyrwyr.



**Your Student Life,  
Supported.**

Eich Bywyd Fel Myfyriwr,  
Gyda Chefnogaeth.



## Helo gan dîm Anabledd a Dyslecsia'r Brifysgol

Mae'r canllaw hwn yn cynnig trosolwg o'r cyfleusterau, yr addasiadau a'r cymorth sydd ar gael ym Mhrifysgol Caerdydd i fyfyrwyr anabl, a byddem yn eich annog i gysylltu â ni cyn gynted â phosibl.

Deallwn fod gan bob myfyriwr ei anghenion penodol ei hun ac mae'r tîm Anabledd a Dyslecsia ar gael i weithio gyda chi a'ch helpu. O ran y canllaw hwn, mae'r geiriau anabl ac anabledd yn cael eu defnyddio i gyfeirio at fyfyrwyr sydd â nam synhwyrdd a chorfforol, cyflyrau iechyd meddwl, cyflyrau iechyd hirdymor, dyslecsia, anawsterau dysgu penodol eraill neu fyfyrwyr ar y sbectrwm awtistig.

Yn gyntaf, diolch i'r myfyrwyr canlynol am eu help wrth lunio'r canllaw hwn:

- Dylan - Myfyriwr Ôl-radd, Ysgol Hanes, Archeoleg a Chrefydd
- Benjamin - Myfyriwr Israddedig, Ysgol Busnes Caerdydd
- Charlotte - Myfyriwr Israddedig, Ysgol Biowyddorau

Cadwch y canllaw hwn yn ddiogel i gyfeirio ato'n y dyfodol ac i ddefnyddio'r manylion cyswllt!

## Cynnwys

Sut y gall y tîm Anabledd a Dyslecsia eich helpu chi	Tudalen 4
Helpwch ni i'ch helpu chi	Tudalen 5
Rhoi gwybod am eich anabledd	Tudalen 6
Cyflwyno tystiolaeth am eich anabledd	Tudalen 7
Cymorth ariannol	Tudalen 8-9
Cefnogi'ch dysgu	Tudalen 10-11
Gwasanaethau cymorth arbenigol	Tudalen 12-13
Gwneud y mwyaf o fyw ac astudio ym Mhrifysgol Caerdydd	Tudalen 14-15
Cysylltiadau defnyddiol	Tudalen 16
Polisi'r Brifysgol	Tudalen 17

## Fformatau Eraill

Os byddai'n well gennych gael y canllaw hwn mewn braille, print bras neu fel tâp sain, cofiwch holi. E-bostiwch [disability@caerdydd.ac.uk](mailto:disability@caerdydd.ac.uk) Ffôn: 029 2251 8888 neu dewch draw i'n gweld yn y Ganolfan Cymorth Myfyrwyr, 50 Plas-y-parc, Cathays neu Dŷ Aberteifi, Y Mynydd Bychan.

## Sut gall y tîm Anabledd a Dyslecsia eich helpu

Cynigiwn gyngor arbennig i ddarpar fyfyrwyr a'n myfyrwyr presennol. Gweithiwn gyda myfyrwyr a staff ym mhob rhan o'r Brifysgol i gydlynu cymorth a chynnig gwasanaethau arbenigol sy'n bodloni'ch anghenion yn y ffordd orau.

Gallwn gynnig:

- Cyngor cyfrinachol, canllawiau a gwybodaeth yn benodol i chi.
- Help i adnabod eich anghenion cymorth a'r addasiadau rhesymol sydd eu hangen arnoch.
- Cyngor ar ba un a allwch gael cymorth, a gwneud cais am Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA).
- Cyfle i gael Asesiadau anghenion i DSA i benderfynu ar eich gofynion cymorth astudio a thechnoleg personol.
- Cysylltu â'ch Ysgol Academaidd ac adrannau eraill i roi cyngor a sicrhau y gwneir addasiadau rhesymol ar eich cyfer.
- Cynorthwyo gweithwyr i'ch helpu e.e. cyfeirio, cymryd nodiadau, cymorth yn y llyfrgell.
- Cymorth sgiliau astudio i'ch helpu wrth astudio.
- Gwasanaethau mentora os oes gennych broblemau iechyd meddwl neu'ch bod ar y sbectrwm awtistig.

Mae rhagor o wybodaeth yn y canllaw hwn ac mae pob croeso i chi gysylltu â ni:  
Y Ganolfan Cymorth Myfyrwyr, 50 Plas-y-parc, Cathays a Tŷ Aberteifi, Y Mynydd Bychan.  
Ffôn: 029 2251 8888 E-bost: [disability@caerdydd.ac.uk](mailto:disability@caerdydd.ac.uk)

## Helpwch ni i'ch helpu chi

Dyma bum peth y credwn y dylech eu gwneud i sicrhau y gallwn gydweithio i gynnig y cymorth a'r addasiadau sydd eu hangen arnoch.

### 1. Rhowch wybod i ni am eich anabledd cyn gynted â phosibl

Ar ôl i ni gael gwybod amdano a'ch bod wedi rhoi caniatâd i ni rannu'r wybodaeth, gallwn ddechrau llunio pecyn cymorth i chi.

### 2. Cyflwynwch dystiolaeth

Mae angen i chi gyflwyno tystiolaeth o'ch anabledd er mwyn gallu manteisio ar yr holl gymorth sydd ar gael i chi. Os, am unrhyw reswm, nad ydych yn siŵr am eich anabledd, y dystiolaeth, neu fod gennych gwestiynau, cysylltwch a ni i gael cyngor.

### 3. Darllenwch e-byst y brifysgol

Byddwn yn cysylltu â chi drwy'r cyfrif e-bost [@caerdydd.ac.uk](mailto:@caerdydd.ac.uk) a roddodd y brifysgol i chi. Cadwch lygad allan am e-byst a anfonir atoch ac ymatebwch i ni fel y gallwch gael y cymorth sydd ei angen arnoch.

### 4. Ewch i'ch apwyntiadau

Cewch wahoddiad i gwrdd â staff i drafod eich amgylchiadau a'ch gofynion penodol. Yn ogystal â bod yn gyfle i ddod i'ch adnabod, bydd dod i'r apwyntiadau'n sicrhau y gallwch fanteisio ar y cymorth sydd ar gael a bod modd gwneud addasiadau rhesymol lle y bo'n briodol.

### 5. Cadwch mewn cysylltiad

Os gofynnwn i chi wneud rhywbeth i'n helpu ni i drefnu addasiadau neu gymorth, gwneud hynny cyn gynted ag y gallwch. Yn yr un modd, os nad oes addasiadau wedi'u gwneud neu nad ydynt yn ddefnyddiol a/neu fod eich manylion cyswllt, anabledd neu rywbeth arall yn newid, rhowch wybod i ni.

## Rhoi gwybod am eich anabledd

Po gyntaf y rhowch wybod i ni am eich anabledd, po gyntaf y gallwn eich helpu.

### 1. Rhowch wybod i ni ar eich ffurflen UCAS, ffurflen gais y brifysgol neu cysylltwch â'r Gwasanaeth Anabledd a Dyslecsia'n uniongyrchol.

Y broses derbyniadau yw'r cyfle cyntaf i wneud hyn, ond nad ydych/na wnaethoch gynnwys manylion ar eich anabledd gallwch wneud hynny ar unrhyw bryd, cysylltwch â ni yn y Gwasanaeth Anabledd a Dyslecsia. Os ydych yn gwneud cais i raglen â gofyniad 'addasrwydd i ymarfer' proffesiynol mae'n arbennig o bwysig rhoi gwybod i'r Brifysgol am eich anabledd cyn gynted â phosibl.

### 2. Siaradwch â ni

Os gwnaethoch roi gwybod i ni am eich anabledd wrth wneud cais a'ch bod wedi cael cynnig, byddwn yn cysylltu â chi i ddysgu mwy am eich anghenion cymorth. Mae hwn yn gyfle i chi siarad â ni, trefnu ymweliad neu ddechrau trefnu cymorth.

### 3. Cytuno ar y ffordd ymlaen

Ar ôl i ni drafod eich anghenion gallwn roi cyngor i chi ar fanteisio ar gymorth a chytuno ar y camau nesaf.

### Os dewiswch beidio â rhoi gwybod am eich anabledd

Mae rhai myfyrwyr yn dewis peidio â dweud wrthym am eu hanabledd, ond yna'n dysgu bod angen cyngor a chymorth arnynt pan fydd eu hastudiaethau'n dechrau. Os ydych yn y sefyllfa hon, mae croeso i chi gysylltu â ni a byddwn yn eich helpu cyn gynted ag y gallwn, er cofiwch gallai rhoi gwybod i ni am anabledd yn hwyrach arwain at oedi wrth roi'r cymorth hwn i chi.

## Cyflwyno tystiolaeth am eich anabledd

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ddatblygu amgylchedd dysgu cynhwysol a gwneud addasiadau rhagweledol lle y bo'n bosibl. Ond gallai fod angen addasiadau unigol ar nifer o'n myfyrwyr felly mae'n hollbwysig i ni gael gwybod am eich anghenion.

Er mwyn i ni wneud hyn mae angen i chi:

- Gofrestru â'r Gwasanaeth Anabledd a Dyslecsia
- Cyflwyno'r dystiolaeth ddiweddaraf, briodol i ni, y byddwn yn ei chadw ar ran y Brifysgol.

Os oes gennych anhawster dysgu penodol mae angen i chi:

- Gyflwyno tystiolaeth ddiagnostig i ni i gadarnhau bod gennych anhawster dysgu penodol. Cofiwch nad yw adroddiadau Ysgol neu Goleg a ddefnyddir i ddyfarnu eich anghenion i allu sefyll arholiadau o reidrwydd yn ddiagnostig, felly gallai fod angen rhagor o dystiolaeth ddiagnostig.

O ran unrhyw anabledd arall mae angen i chi:

- Gyflwyno tystiolaeth feddygol i ni fel llythyr gan feddyg teulu neu feddyg ymgynghorol, sy'n nodi'n glir fod effaith hirdymor. Cofiwch nad yw llythyrau penodi na ffotograffau'n dystiolaeth ddigonol.



Gallai fod gan rhai o'n myfyrwyr hawl i Lwfans i Fyfyrwyr Anabl, sy'n helpu i dalu am gostau eu cymorth anabledd. Mae'n ychwanegol at y pecyn ariannol safonol i fyfyrwyr a gewch, ac yn amodol ar amryw delerau ac amodau:

### Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA)

Mae hwn yn lwfans di-brawf sy'n talu am unrhyw gostau astudio ychwanegol sy'n deillio o ganlyniad i'ch anabledd. Cofiwch nad yw'r lwfansau hyn ond ar gael i fyfyrwyr y DU drwy eich Corff Ariannu.

Gall DSA o bosibl eich helpu i dalu am:

- Offer Arbenigol e.e. meddalwedd, caledwedd ac offer ergonomaid
- Cynorthwywyr Anfeddygol e.e. cymorth sgiliau astudio arbenigol a mentora
- Treuliau anabledd ychwanegol cyffredinol
- Costau teithio ychwanegol

### Sut i wneud cais am DSA

Mae angen i chi wneud eich cais am DSA drwy eich Corff Ariannu. Cofiwch y gall y broses gwneud cais fod yn wahanol i fyfyrwyr ôl-raddedig ac israddedig ac i'r sawl sy'n astudio cwrs a ariennir gan y GIG.

Ewch i wefan eich corff ariannu i gael manylion ar sut i wneud cais:

[Cyllid Myfyrwyr Cymru](#)

[Student Finance England](#)

[Student Finance Northern Ireland](#)

[Student Awards Agency Scotland](#)

[Dyfarniadau'r GIG Cymru](#)

[Cynghorau Ymchwil y DU](#)

[Cymorth ariannol](#)

### Cyflwyno tystiolaeth â'ch cais DSA

I wneud cais am DSA rhaid i'ch tystiolaeth gadarnhau bod gennych anabledd fel y'i diffinnir dan y [Ddeddf Cydraddoldeb \(2010\)](#).

Yn ôl y Ddeddf mae gan unigolyn anabledd os oes ganddo nam corfforol neu feddwl sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Gall tystiolaeth ategol gynnwys llythyr gan feddyg teulu neu feddyg ymgynghorol, adroddiad diagnostig a wnaed pan oeddech yn 16+ oed gan asesydd cymwys addas e.e. Seicolegydd Addysgol neu weithiwr proffesiynol â thystysgrif ymarfer gyfredol.

### Asesiad o anghenion DSA

Os caiff eich cais ei gymeradwyo, bydd eich corff ariannu'n gofyn i chi gyflawni asesiad o anghenion i ddysgu pa gymorth a ariennir gan DSA sydd ei angen arnoch. Gallwch drefnu asesiad o anghenion gyda ni yma ym [Mhrifysgol Caerdydd](#), e-bostiwch [dsaadmin@caerdydd.gov.uk](mailto:dsaadmin@caerdydd.gov.uk) neu ffoniwch 02920879127. Fel arall gallwch ddewis [Canolfan Asesu \(Gymeradwy\)](#) arall.

### Myfyrwyr Rhyngwladol a'r UE

Dylech gysylltu â'ch llywodraeth gartref i gael gwybodaeth am fanteisio ar gymorth ariannol. Gallai eich noddwyr roi grant ychwanegol i chi dalu am unrhyw dreuliau ychwanegol sydd gennych o ganlyniad i'ch anabledd. Byddwn yn gweithio gyda chi i asesu eich anghenion ac i wneud addasiadau rhesymol i'ch helpu yn eich astudiaethau.

### Gofal a chymorth personol

Mae angen gofal a chymorth personol ar rai o'n myfyrwyr i'w helpu â'u bywyd bob dydd fel cymorth gyda choginio, siopa, ymolchi neu wisgo. Ni roddir y cymorth hwn gan y Brifysgol, ond byddwn yn gweithio gyda chi i roi cyngor a gwybodaeth ar drefnu cymorth â darparwyr ychwanegol a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol am ariannu'ch pecyn gofal personol. Os ydych yn fyfyrwr yr UE neu'n fyfyrwr rhyngwladol mae'n bwysig i chi feddwl am sut y byddwch yn ariannu eich cymorth gofal personol e.e. yn breifat, drwy noddwr neu ymddiriedolaeth elusennol, ac i drefnu'r cymorth hwn cyn i chi ddechrau byw ac astudio yng Nghaerdydd.

### Ysgolion Academaidd

Mae ysgolion academaidd wedi nodi aelodau o staff yn Gysylltiadau Anabledd i fod yn bwynt cyfeirio i ymholiadau myfyrwyr am y rhaglenni astudio a'r cymorth academaidd sydd ar gael. Mae'r tîm Anabledd a Dyslecsia'n gweithio'n agos gyda'r Cysylltiadau Anabledd i wneud argymhellion i addasiadau rhesymol gael eu gwneud ym mhob rhan o'r ysgol.

Ymhlith y mathau o addasiadau rhesymol rydym wedi'u trefnu i'n myfyrwyr mae:

- Dosbarthu sleidiau darlithoedd/taflenni ymlaen llaw
- Deunyddiau'r cwrs mewn fformat arall e.e. print bras neu bapur lliw
- Caniatâd i recordio darlithoedd
- Amserlennu i sicrhau bod pob rhan o'r campws yn gyrraeddadwy
- Gwneud cyflwyniadau i grwpiau llai
- Cefnogi trefniadau ar gyfer sesiynau ymarferol/labordy a thripiâu

### Trefniadau arholi

Mae angen trefniadau arholi penodol ar rai o'n myfyrwyr, megis:

- Amser ychwanegol
- Seibiau
- Darllenwyr neu ysgrifenyddwyr
- Papurau arholi ar fformat arall e.e. print bras neu ar bapur lliw
- Cyfrifiadur neu offer ergonomaidd

Os oes angen hyn arnoch, cysylltwch â'r Gwasanaeth Anableddau a Dyslecsia i drafod hyn yn fanylach, a chyflwynwch y dogfennau angenrheidiol i ategu hyn. Gallai'r dystiolaeth fod yn llythyr gan feddyg neu'n adroddiad asesu diagnostig.

### Llyfrgelloedd

Mae gan lyfrgelloedd Gysylltiadau Anabledd dynodedig i drafod pa wasanaethau sydd ar gael i chi yn llyfrgell eich pwnc. Mae llyfrgelloedd yn lle braf i astudio ynddynt gan gynnig y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnoch i gyflawni eich potensial.

Mae staff ar gael i'ch helpu i ddod o hyd i lyfrau a nôl llyfrau, chwilio catalog y brifysgol, trefnu i ddeunyddiau gael eu dosbarthu i'ch cartref a chael gwybodaeth mewn fformatau gwahanol.

Mae rhai llyfrgelloedd yn cynnig offer cynorthwyol ychwanegol megis:

- Bysellfyrddau a llygod gwahanol
- Chwyddwyr fideo
- Desgiau y gallwch newid pa mor uchel ydynt

Mae hefyd nifer o raglenni meddalwedd cynorthwyol ar gyfrifiaduron rhwydwaith y campws.

Mae gan rai myfyrwyr hefyd hawl i ddefnyddio gwasanaeth benthyciadau estynedig y llyfrgell. Os argymhellir hyn i chi, mae'n golygu pan fyddwch yn benthycu llyfrau o'r llyfrgell, a phan fyddwch yn eu hadnewyddu, fod y cyfnodau benthycu undydd, tridiau, wythnos a phythefnos yn cael eu dyblu'n awtomatig. Cofiwch nad yw benthyciadau am gyfnodau pedair awr na phedair wythnos yn cael eu dyblu.





### Gwasanaeth Gweithiwr Cymorth

Os argymhellir i chi gael Gweithiwr Cymorth fel addasiad rhesymol neu yn eich Asesiad o Anghenion DSA gallwn gynnig y gwasanaeth hwn i chi.

Gall eich Gweithiwr Cymorth weithio gyda chi a'ch cynorthwyo ag ystod o weithgareddau fel:

- Gwneud nodiadau mewn darlithoedd,
- Eich cyfeirio neu eich helpu i symud o amgylch y campws,
- Cymorth gyda dosbarthiadau labordy neu ymarferol.

### Tiwtora Sgiliau Astudio

Mae'n bosibl bod eich Asesiad o Anghenion DSA wedi argymhell i chi gael Tiwtor Sgiliau Astudio fel addasiad rhesymol. Mae gennym dîm o diwtoriaid cymwys sy'n cynnig cymorth sgiliau astudio i chi os oes gennych anhawster dysgu penodol (ADP) fel dyslecsia a dyspracsia, neu gyflwr neu anabledd meddygol.

Mae ein harlwy Tiwtoriaid Sgiliau Astudio'n cynnig:

- Sgiliau trefnu a rheoli amser,
- Technegau gwneud nodiadau a chofio,
- Sgiliau ymchwil,
- Ysgrifennu academaidd,
- Sillafu a gramadeg,
- Strategaethau adolygu,
- Sgiliau cyflwyno,
- Dysgu annibynnol.

### Gwasanaeth Mentora

Os oes gennych anhawster iechyd meddwl mae'n bosibl fod gennych Fentor. Mae ein Mentoriaid yn gweithio gyda chi i reoli eich gofynion astudio bob dydd ac wrth i chi fynd i'r brifysgol, fel datblygu strategaethau a arweinir gan fyfyrwyr, monitro cynnydd a rheoli anawsterau iechyd meddwl.

Os ydych ar y sbectrwm awtistig gallwn gysylltu â mentoriaid allanol i ddod i'r campws a gweithio gyda chi i ddatblygu ystod o strategaethau, fel sgiliau cymdeithasol, cyfathrebu a byw'n annibynnol yn ogystal â sgiliau trefnu, cynllunio a datrys problemau.

Cofiwch os oes unrhyw un o'r gwasanaethau cymorth arbenigol hyn wedi'u hargymhell i chi a'i fod wedi'i awdurdodi gan ffynonellau ariannol allanol, fel DSA, bydd eich Corff Ariannu'n talu am gost y cymorth hwn i chi.

## Gwneud y mwyaf o fyw ac astudio ym Mhrifysgol Caerdydd

Yma, mae manylion ar wasanaethau a chymorth ychwanegol a allai fod o fudd i chi:

### [Diwrnodau Agored ac Ymweliadau â Phrifysgol Caerdydd](#)

Mae diwrnodau agored yn gyfle i chi weld eich hun sut le yw'r Brifysgol i astudio a byw ynddo. Mae Ysgolion Academaidd hefyd yn cynnig Diwrnodau Ôl-gynnig. Ewch i'w gwefannau i gael rhagor o fanylion.

### [Preswylfeydd Mynediad Hawdd y Brifysgol](#)

Mae gennym amrywiaeth o lety ar gael i fyfyrwyr, fel ystafelloedd â chawodydd gwastad, larymau sy'n fflachio a drysau awtomatig. Mae hefyd hyn a hyn o ystafelloedd penodol i ddefnyddwyr cadair olwyn, felly os oes gennych anghenion mynediad rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl.

### [Byw yng Nghaerdydd](#)

Mae Canllaw 'Bwrw Golwg ar Hygyrchedd' Canol Dinas Caerdydd yn cynnig gwybodaeth am Gaerdydd fel dinas hygrych.

### [Parcio Ceir](#)

Mae nifer o lefydd parcio o amgylch y campws y gall deiliad bathodyn glas eu defnyddio am ddim. Os yw'ch anabledd yn effeithio ar eich gallu i symud bydd ein tîm Parcio Ceir yn ystyried ceisiadau i barcio os oes gennych Fathodyn Glas neu os yw eich meddyg teulu/meddyg ymgynghorol yn fodlon cefnogi'ch cais i gael trwydded - dilynwch y ddolen uchod i wneud cais.

### [Cymorth a Lles Myfyrwyr](#)

Mae ein cydweithwyr yn yr adrannau Cyngor ac Arian, Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd, Iechyd a Lles a Chymorth i Fyfyrwyr Rhyngwladol yn cynnig ystod gynhwysfawr o wasanaethau a digwyddiadau i'ch helpu drwy gydol eich amser yn y Brifysgol.

### [Dosbarthiadau Sgiliau Astudio Academaidd](#)

Mae dosbarthiadau Sgiliau Academaidd ar gael i fyfyrwyr israddedig ar draws pob grŵp blwyddyn a disgyblaeth, gan gynnig amgylchedd braf i fyfyrwyr rannu syniadau da, cymharu dulliau gwahanol a bod yn rhagweithiol wrth ddysgu.

### [Caplaniaeth, Ffydd a Chrefydd](#)

Mae cyfleusterau chwaraeon y Brifysgol ar agor gydol y flwyddyn i gymuned y Brifysgol a'r cyhoedd ac maent wedi'u lleoli ar y 3 phrif safle. Cliciwch y ddolen uchod i gael rhagor o wybodaeth ac i weld y datganiad hygyrchedd.

### [Chwaraeon ac Ymarfer Corff](#)

Mae Undeb y Myfyrwyr yn croesawu unigolion anabl, gan ymdrechu i roi'r profiad gorau posibl i gwsmeriaid a gwneud eich ymweliad yn un pleserus, didrafferth. Cliciwch y ddolen hon i ddysgu mwy am Hygyrchedd eu Lleoliadau.

### [Undeb y Myfyrwyr](#)

Mae Undeb y Myfyrwyr yn croesawu unigolion anabl, gan ymdrechu i roi'r profiad gorau posibl i gwsmeriaid a gwneud eich ymweliad yn un pleserus, didrafferth. Cliciwch y ddolen hon i ddysgu mwy am [Hygyrchedd eu Lleoliadau](#).

Mae Undeb y Myfyrwyr hefyd yn cynnig:

[Swyddog Myfyrwyr ag Anableddau](#) a [Swyddog Lles Myfyrwyr](#) sy'n gweithio i gynrychioli buddiannau myfyrwyr yn yr Undeb a'r Brifysgol, ac yn ymgyrchu ar faterion perthnasol.





## Cysylltiadau defnyddiol

<a href="#">Y Tîm Anabledd a Dyslecsia</a>	029 2251 8888	disability@caerdydd.ac.uk
Timau Cymorth a Lles Myfyrwr: <a href="#">Cyngor ac Arian,</a> <a href="#">Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd,</a> <a href="#">Cwnsela, Iechyd a Lles a Chymorth i</a> <a href="#">Fyfyrwr Rhyngwladol.</a>	029 2251 8888	studentsupport@caerdydd.ac.uk
<a href="#">Preswylfeydd</a>	029 2087 4849	residences@caerdydd.ac.uk
<a href="#">Derbyniadau</a>	029 2087 9999	admissions@caerdydd.ac.uk
<a href="#">Pharcio Ceir*</a>	029 2087 4849	residences@caerdydd.ac.uk
<a href="#">Llyfrgelloedd</a>	029 2087 4818 029 2068 8137	library@caerdydd.ac.uk
<a href="#">Desg Gwasanaethau TG</a>	029 2251 1111	it-servicedesk@caerdydd.ac.uk
<a href="#">Undeb Myfyrwr</a>	029 2078 1400 (Cathays) 029 2068 7657 (Heath)	studentsunion@caerdydd.ac.uk

## Polisi'r Brifysgol

Mae gan y Brifysgol bolisiâu a gweithdrefnau a allai fod yn ddefnyddiol i chi os bydd angen i chi:

### [Amgylchiadau Esgusodol \\*](#)

Os oes amgylchiadau personol fel salwch neu brofedigaeth yn effeithio arnoch a'u bod yn amharu'n fawr ar eich gallu i astudio a/neu eu bod yn effeithio ar eich perfformiad mewn asesiad neu arholiad rhaid i chi roi gwybod amdanynt i'ch Ysgol Academaidd.

### [Gohirio Astudiaethau \\*](#)

Os oes angen i chi fod i ffwrdd o'ch rhaglen am fwy na phythefnos, gallwch wneud cais i Ohirio Astudiaethau.

### [Cydraddoldeb ac Amrywiaeth](#)

Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwmo'n llwyr i gefnogi, datblygu a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein holl arferion a'n gweithgareddau.

\*I ddysgu mwy am y Polisi a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol cliciwch y ddolen.



# Cysylltu â ni

## Y Gwasanaeth Anabledd a Dyslecsia

Y Ganolfan Cymorth Myfyrwyr  
50 Plas y Parc,  
Cathays,  
Caerdydd,  
CF10 3AT

Y Ganolfan Cymorth Myfyrwyr  
2il Lawr,  
Tŷ Aberteifi,  
Y Mynydd Bychan,  
Caerdydd,  
CF14 4XN

029 2251 8888  
disability@caerdydd.ac.uk

[www.caerdydd.ac.uk](http://www.caerdydd.ac.uk)  
neu dewch o hyd i ni ar fewnwyd



**Your Student Life,  
Supported.**

Eich Bywyd Fel Myfyrwr,  
Gyda Chefnogaeth.